# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-08-08)

**Dyddiad: 24 Ebrill 2008**
**Amser: 12:30 – 13:30**
**Lleoliad: Ystafell bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mike German (Cadeirydd dros Dro) Dwyrain De Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Janice Gregory, Ogwr
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc
Eraill yn bresennol
Tegryn Jones, Prif Weithredwr, Cadw Cymru'n Daclus
Gill Bell, Swyddog Cymru, y Gymdeithas Gwarchod Morol

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro

1.1O dan Reol 10.18 o'r Rheolau Sefydlog, etholwyd Mike German fel Cadeirydd Dros Dro ar gyfer cyfarfodydd nad oedd Mick Bates yn gallu'u mynychu hyd at ddiwedd tymor presennol y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2008.

### Eitem 2: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates, Lorraine Barrett a Karen Sinclair. Mynychodd Mike German y cyfarfod fel dirprwy yn lle Mick Bates a Janice Gregory fel dirprwy yn lle Lorraine Barrett.

### Eitem 3: Ystyried deiseb rhif P-03-063, yn galw am wahardd bagiau plastig

### Papur: SC(3)-08-08 (p1)

3.1Cyflwynodd y Cadeirydd bapur a gohebiaeth gysylltiedig mewn cysylltiad â deiseb rhif P-03-063, yn galw am wahardd bagiau plastig.

3.2Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i gadarnhau'r cynnydd a wnaethpwyd ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff. Cytunodd y Pwyllgor ymhellach i ofyn am gyngor cyfreithiol ar y gwahanol ddewisiadau oedd ar gael gyda golwg ar fynd i'r afael â phroblem bagiau plastig.

3.3Yn amodol ar ganlyniad trafodaethau gyda'r Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor i gynnal adolygiad ar y ddeiseb. Gwahoddwyd Aelodau i gyflwyno i'r Clerc enwau tystion posibl ar gyfer yr adolygiad.

### Eitem 4: Ystyried deiseb rhif P-03-063, yn galw am wahardd bagiau plastig

### Papurau: SC(3)-08-08 (p2) a (p3)

4.1Croesawodd y Cadeirydd Tegryn Jones o Cadw Cymru'n Daclus a Gill Bell o'r Gymdeithas Gwarchod Morol i'r cyfarfod a'u gwahodd i gyflwyno eu hadroddiadau ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.